Diffiniadau Defnyddiol DASH

Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn dweud bod pobl yn cael eu hanalluogi gan rwystrau mewn cymdeithas ac nid gan eu nam neu wahaniaeth. Gall rhwystrau fod yn gorfforol, neu gallant gael eu hachosi gan agweddau a rhagfarn pobl.
Mae defnyddio'r model cymdeithasol yn helpu i adnabod y rhwystrau hyn. Drwy gael gwared ar y rhwystrau hyn, gallwn greu mwy o gydraddoldeb a thegwch i bobl anabl.

Dysgwch fwy am y Model Cymdeithasol yn y ffilm fer hon sydd ar gael ar wefan Shape Arts: **Model Cymdeithasol o Anabledd - YouTube**

Niwrolegau

Niwrolegau yw'r ffyrdd amrywiol y mae pobl yn meddwl a'r ffyrdd y maent yn profi ac yn deall y byd.

Niwrogadarnhaol

Gall niwrolegau gwahanol gael eu hystyried yn broblem mewn ffordd annheg, neu anghywir. Er enghraifft, awtistiaeth, ADHD neu ddyslecsia.

Mae niwrogadarnhaol yn golygu ystyrir bod gan bob niwroleg werth cyfartal.

Gofod seicolegol diogel

Mae gofod seicolegol diogel yn fan lle rydych chi'n teimlo'n gyfforddus i rannu'ch syniadau, eich pryderon a gwneud camgymeriadau. Rydych chi'n teimlo'n ddiogel i fod yn onest ac yn siarad eich gwir feddyliau heb ofni cosb, gwrthodiad, cael eich gwatwar neu eich barnu.

Croestoriadedd

Mae croestoriadedd yn cyfeirio at y gorgyffwrdd rhwng hunaniaethau cymdeithasol.

Fel arfer mae'r rhain yn nodweddion gwarchodedig, (a warchodir gan y gyfraith) megis hil, rhywedd, anabledd, dosbarth, a rhywioldeb. Mae gwahaniaethu a brofir gan berson yn cynyddu pan fydd ganddynt fwy nag un nodwedd warchodedig.

Meddwl yn feirniadol croestoriadol
Meddwl yn feirniadol croestoriadol yw'r ddealltwriaeth y bydd gwahanol hunaniaethau cymdeithasol person yn arwain at brofiadau gwahanol o wahaniaethu. Bydd ymagwedd groestoriadol at feddwl yn feirniadol yn cyflwyno ystod ehangach o safbwyntiau a dealltwriaeth o wahanol sefyllfaoedd.

Meddwl yn Feirniadol
Meddwl yn feirniadol yw'r gallu i ddadansoddi gwybodaeth a llunio barn. Er mwyn meddwl yn feirniadol, rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch rhagfarnau a'ch rhagdybiaethau eich hun.

Nodweddion Gwarchodedig
Mae naw nodwedd warchodedig.

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Mae yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodwedd warchodedig.

Gwaith Newid Systemau
Mae newid systemau yn ymwneud â newid y ffordd y mae ein cymdeithas wedi'i strwythuro.

Rydym yn credu bod rhwystrau, rhagfarn, ac allgáu gan gymdeithas yn anablu.

Trwy ddeall y systemau yr ydym yn rhan ohonynt; bydd ein partneriaid a'n rhwydweithiau yn fwy llwyddiannus wrth eu herio i greu byd tecach.

Sero Net
Mae sero net yn golygu peidio ag ychwanegu at gyfanswm y nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer mwyach. Mae nwyon tŷ gwydr yn cynnwys carbon deuocsid (CO2) a methan.

Mae'r nwyon hyn yn cynyddu tymereddau byd-eang trwy ddal egni ychwanegol yn atmosffer y Ddaear.

Gofynion Mynediad
Gofynion mynediad yw'r addasiadau neu'r newidiadau sydd eu hangen i ddileu neu leihau anfantais sy'n gysylltiedig â nam unigolyn.

Er enghraifft, laith Arwyddion Prydain, disgrifiadau sain, cyfarwyddiadau clir, gofod tawel, egwyliau rheolaidd.